

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL: 60/2019

DYDDIAD CYHOEDDI: 17/12/2019

# Gwerthu a Defnyddio Bagiau Siopa yng Nghymru

## Crynodeb gweithredol

### 1. Cefndir ac amcanion

- 1.1 Mae Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (SUCB) (Cymru) 2010,<sup>1</sup> yn ei gwneud yn ofynnol i bob unigolyn sy'n gwerthu nwyddau yng Nghymru neu i'w dosbarthu i unigolion yng Nghymru (gwerthwyr) godi isafswm o 5c yr un am bob SUCB a ddefnyddir. Codir y tâl ar y pwynt gwerthu ac mae'n berthnasol mewn siopau a thrwy ddulliau gwerthu o bell.
- 1.2 Cyhoeddwyd Adolygiad Ôl-weithredu<sup>2</sup> (PIR) yn 2016 fel asesiad cynnar o effaith y tâl ar SUCB. Roedd yr adolygiad yn archwilio tueddiadau yn y galw am SUCB ac am fathau amrywiol eraill o fagiau siopa (e.e. Bagiau am Oes (BfL), bagiau papur, jiwt, bagiau cotwm, ac ati) rhwng 2011 a 2015; y costau a buddion amgylcheddol a ragwelid; ac agweddau ac ymddygiad manwerthwyr a defnyddwyr wrth ymateb i'r tâl 5c am SUCB.
- 1.3 Roedd canlyniadau'r PIR yn dynodi gostyngiad sylweddol (71%) yn y nifer o SUCB a gyflenwyd yng Nghymru rhwng 2011 a 2014, ynghyd ag effeithiau cadarnhaol calonogol ar ddefnyddwyr gan gynnwys cynnydd yn y defnydd o'u bagiau eu hunain, a chefnogaeth eang i'r tâl barhau.
- 1.4 Nod Gwerthu a Defnyddio Bagiau Siopa yng Nghymru ('Astudiaeth 2019') oedd rhoi data cyfredol i Lywodraeth Cymru am y defnydd o fagiau yng Nghymru, a dealltwriaeth o agweddau ac ymddygiad manwerthwyr a defnyddwyr yng Nghymru ar hyn o bryd wrth ymateb i'r tâl SUCB.
- 1.5 Bydd y canfyddiadau yn cael eu defnyddio i helpu i fonitro polisi cyfredol, ac i ddynodi a oes angen camau pellach gan y llywodraeth o ran bagiau siopa.

<sup>1</sup> Am fanylion llawn, cyfeiriwch at [Reoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro \(Cymru\) 2010](#).

<sup>2</sup> Am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at yr [Adolygiad Ôl-weithredu Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro yng Nghymru](#), 2016, a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Dull

1.6 Rhannwyd yr ymchwili yn ddwy ffrwd waith:

- (1) **Ymchwili meintiol gyda manwerthwyr a gwerthwyr cludfwd**, i bennu faint o fagiau sydd wedi cael eu cyflenwi ers y PIR yn 2016, a deall agweddau ac ymddygiad presennol yn ymwneud â bagiau siopa.
- (2) **Ymchwili ansoddol gyda defnyddwyr**, er mwyn deall agweddau dinasyddion a'u hymddygiad o ran bagiau siopa.

### *Ymchwili meintiol*

- 1.7 Roedd yr ymchwili meintiol yn cynnwys arolwg o fanwerthwyr, gan dargedu busnesau bach a mawr yng Nghymru ar wahân. Cynhaliwyd gwaith maes yn gynnar yn 2019 gan roi ffigyrau am y flwyddyn galendr 2018, yn ogystal â'r blynyddoedd ariannol 2015-16, 2016-17, 2017-18 (1 Ebrill i 31 Mawrth).
- 1.8 Cyfwelwyd cyfanswm o 890 o SME (a ddiffinir fel rhai â llai na 250 o weithwyr) yn yr arolwg SME. Allan o'r rhain dywedodd 440 (49%) nad oeddent wedi cyflenwi bagiau o gwbl tra roedd 450 SME yn adrodd eu bod wedi cyflenwi o leiaf un math o fag siopa yn ystod y cyfnod o ddiddordeb, ac felly gofynnwyd holl gwestiynau'r holiadur iddynt.
- 1.9 Roedd cael cyfweiliadau gyda busnesau mawr (a ddiffinir fel rhai â 250 neu fwy o weithwyr) yn heriol heb fanylion cyswllt ymlaen llaw, ac roedd yn gofyn am lawer mwy o adnoddau i bob busnes mewn cymhariaeth â SME. Rhoddwyd blaenoriaeth i sicrhau cyfweiliadau gyda chymaint o'r deg archfarchnad fwyaf yng Nghymru â phosibl, gan wybod y byddent yn gyfrifol am fwyafrif sylweddol o'r bagiau siopa a gyflenwir yng Nghymru.
- 1.10 Ymatebodd 11 o fusnesau mawr i gyd i'r arolwg, gan gynnwys pedair o'r deg archfarchnad amlycaf. Casglodd ymchwili ar ddesg ddata am SUCB plastig ar gyfer dwy arall o'r deg archfarchnad amlycaf.
- 1.11 Roedd y data a gasglwyd yn ddigonol i greu amcangyfrif cadarn o'r nifer o SUCB plastig a gyflenwyd yng Nghymru. Roedd yr ymatebion cyfyngedig a rhannol a dderbyniwyd gan fusnesau mawr yn ein hatal rhag creu amcangyfrif cadarn ar gyfer mathau eraill o fagiau; fodd bynnag, defnyddiwyd y dystiolaeth sydd ar gael i roi, yn ychwanegol, amcangyfrifon sy'n rhoi syniad yn unig ar gyfer bagiau BfL plastig a bagiau plastig ysgafn iawn.

### *Ymchwili ansoddol*

- 1.12 Cynhaliwyd yr ymchwili ansoddol gyda defnyddwyr gan ddefnyddio bwrdd trafod ar-lein, yn cynnwys nifer o dasgau a wnaed dros gyfnod o saith diwrnod. Dewiswyd y dull hwn ar sail y disgwyliad y byddai gan ddefnyddwyr ddull unigolyddol iawn o ddefnyddio eu bagiau siopa.
- 1.13 Cwblhaodd cyfanswm o 34 o ddefnyddwyr yr holl dasgau yn llwyddiannus. Cynhaliwyd y bwrdd trafod ar-lein rhwng 22 a 29 Hydref 2018.

## 2. Canfyddiadau allweddol

### SUCB plastig

- 2.1 Rhwng 2015-16 a 2017-18 roedd gostyngiad o 21% fe amcangyfrifir yn y nifer o SUCB a gyflenwyd gan fanwerthwyr yng Nghymru; rydym yn amcangyfrif bod 94.1 miliwn wedi eu cyflenwi yn 2017-18, mewn cymhariaeth â 119.4 miliwn yn 2015-16.
- 2.2 Canlyniad y ffaith bod archfarchnadoedd mawr wedi stopio cyflenwi SUCB plastig yn y cyfnod o ddiddordeb yw'r prif reswm am y gostyngiad hwn. Yn 2015 Sainsbury's oedd yr archfarchnad fawr gyntaf i ddiddymu SUCB plastig yn y siop, ac yna Tesco yn 2017, a

dilynodd eraill yn 2018, ond mae llawer o ddosbarthiadau i'r cartref yn dal i ddefnyddio SUCB plastig. Yn y cyfnod 2019-20 rhagwelir y bydd y defnydd o SUCB ar gyfer dosbarthu i'r cartref hefyd yn gostwng, gydag Asda a Tesco eisoes wedi cyhoeddi yng Ngorffennaf 2019 nad ydynt yn defnyddio SUCB i ddosbarthu i'r cartref bellach. Petai'r duedd cyn 2017-18 wedi parhau heb i archfarchnadoedd a busnesau mawr eraill newid eu polisïau, mae'n debygol y byddai'r nifer o SUCB a gyflenwyd yn ystod y cyfnod wedi cynyddu.

- 2.3 Roedd SME yn cyfrif am 11% o'r holl SUCB plastig a gyflenwyd yng Nghymru yn 2017-18. Rydym yn amcangyfrif bod y nifer o SUCB plastig a gyflenwyd gan SME yn 2017-18 (10.2 miliwn o fagiâu) yn fras yr un fath â'r nifer a gyflenwyd yn 2015-16 (9.9 miliwn). Nid yw'r gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol ac mae oherwydd cynnydd yn y nifer o SME yng Nghymru a'r nifer o SUCB a gyflenwyd gan bob SME. Mae hyn yn wir er gwaethaf y ffaith bod SME yn gyffredinol yn gadarnhaol am y tâl, a 15.4% yn cofnodi eu bod yn ystyried dirwyn SUCB i ben.

## Defnyddio bagiau aml dro

- 2.4 Rydym yn amcangyfrif bod 65.2 miliwn o BfL plastig wedi eu cyflenwi gan y deg archfarchnad fwyaf yng Nghymru yn 2017-18. Er y dylai'r dystiolaeth sydd ar gael gael ei hystyried yn un sy'n rhoi awgrym yn hytrach na bod yn gadarn, mae'n amlwg bod y nifer o BfL plastig a gyflenwyd yng Nghymru wedi parhau i gynyddu ers 2015. Ni ellir cymharu'r amcangyfrifon a'r ffigyrau o astudiaeth 2019 yn uniongyrchol ag amcangyfrifon PIR am 2015 oherwydd y ffaith na chasglwyd data ar gyfer Aldi, Iceland a Lidl ar adeg y PIR. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd cymharu'r newid dros amser o ran BfL. Fodd bynnag, mae'r amcangyfrifon sy'n seiliedig ar y saith archfarchnad fwyaf oedd yn rhoi adroddiadau i WRAP ar adeg y PIR (yn hytrach na'r deg fwyaf ar hyn o bryd) yn dynodi, o leiaf, bod y nifer o BfL a gyflenwyd y flwyddyn, o leiaf 40% yn uwch yn 2017-18 nag yn 2015. Awgrymau tystiolaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan EIA bod y duedd ar i fyny yma wedi parhau rhwng y blynyddoedd calendr 2018 a 2019.<sup>3</sup>
- 2.5 Awgryma'r dystiolaeth o'r ymchwil ansoddol bod defnyddwyr wedi dod i batrwm o ddefnyddio bagiau aml dro, ar gyfer eu prif daith i siopa i archfarchnadoedd o leiaf. Mae'r un peth yn wir pan ddaw yn fater o siopa am nwyddau ychwanegol, er bod hynny i raddau llai. Fe wnaeth y defnyddwyr gofnodi, wrth siopa nwyddau gwahanol, fel dillad, eu bod yn llai tebygol o ddefnyddio bagiau aml dro.
- 2.6 Gwelwyd cynnydd yn y nifer o fagiâu aml dro plastig a gyflenwyd gan SME trwy'r cyfnod 2015-18. Gyrrir hyn gan gynnydd yn y nifer o fanwerthwyr sy'n cyflenwi bagiau o'r fath, y cyfeirir atynt weithiau fel BfL, ond nid ydynt yn cael eu cyfnewid am ddim pan fyddant wedi treulio.
- 2.7 Rydym yn amcangyfrif, o ystyried y newidiadau sylweddol a nodwyd uchod ym mholisïau SUCB rhai o'r archfarchnadoedd mwyaf yn 2018, y duedd ar i lawr debygol yn nefnydd SUCB ar gyfer busnesau mawr eraill yng Nghymru a'r duedd ar i fyny barhaus a awgrymwyd gan EIA yn nifer y BfLs plastig yn cael ei gyhoeddi, mai 2018-19 oedd y flwyddyn y goddiweddodd BfL plastig SUCBs plastig fel y math bag a gyhoeddwyd amlaf yng Nghymru.

---

<sup>3</sup> Yn ôl astudiaeth ddiweddaraf EIA, [Checking Out on Plastics 2](#), dywedodd yr wyth archfarchnad fwyaf a roddodd ddata yn 2018 eu bod wedi cyflenwi 960 miliwn o BfL plastig yn y Deyrnas Unedig; yn 2019, adroddodd yr un wyth cwmni eu bod wedi cyflenwi 1.24 biliwn, gyda 271 miliwn ychwanegol wedi eu gwerthu gan ddwy archfarchnad arall.

## **Bagiau plastig ysgafn iawn**

- 2.8 Er mwyn cefnogi Llywodraeth Cymru i gyrraedd gofynion adrodd yr Undeb Ewropeaidd, roedd yr Astudiaeth yn anelu at roi amcangyfrif o'r nifer o fagiau plastig ysgafn iawn a gyflenwyd yng Nghymru. Rydym yn amcangyfrif bod y deg archfarchnad fwyaf, yn 2017-18, wedi cyflenwi tua 53.8 miliwn o fagiau plastig ysgafn iawn, gydag SME yn cyflenwi 1.1 miliwn yn ychwanegol.

## **Agweddau tuag at y tâl SUCB presennol**

- 2.9 Cytunodd cyfanswm o 68% o'r manwerthwyr y dylai'r tâl SUCB barhau, ac, yn gyffredinol roedd agweddau manwerthwyr yn dal yn gadarnhaol am y tâl, gyda dim ond 7% yn anghytuno o ran a ddylai barhau.
- 2.10 Roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr a gymerodd ran yn yr ymchwili yn gadarnhaol am y tâl SUCB. Roedd dealltwriaeth dda ymhlith defnyddwyr am ddiben craidd y tâl SUCB, a'r manteision amgylcheddol a fwriadwyd. Roedd dealltwriaeth glir o'r gwahaniaeth rhwng bagiau untro a bagiau amlbro. Ychydig iawn o ddefnyddwyr oedd yn deall bod ganddynt hawl i gael BfL cyfnewid am ddim.
- 2.11 Pan oedd gan ddefnyddwyr bryder am y tâl SUCB, roedd hyn yn dueddol o fod yn ymwneud ag a oedd y tâl yn ddigon uchel i atal pobl rhag prynu bagiau newydd.
- 2.12 Roedd rhai defnyddwyr yn ansicr sut yr oedd yr arian a gesglir o'r tâl SUCB yn cael ei wario, gan ddweud y byddent yn hoffi cael gwybod rhagor am hyn. Mae hyn yn gyson â chanfyddiadau PIR. Dewis clir y defnyddwyr, pan ofynnwyd iddynt, oedd y dylai'r arian gael ei wario ar elusennau lleol yng Nghymru, gyda mwyafrif yn dynodi y dylai fod yn benodol ar gyfer prosiectau amgylcheddol.

## **Barn am ddyfodol y tâl SUCB**

- 2.13 Roedd y defnyddwyr a gyfwelwyd yn y gwaith ansoddol yn cefnogi cynnydd yn y tâl SUCB. Roedd tua eu hanner am gynyddu'r tâl i 20c neu 25c, ac roedd ychydig llai na'u hanner yn cefnogi cynnydd i 10c. Dim ond tri o'r 34 ymatebwr oedd ddim yn cefnogi cynnydd yn y tâl SUCB plastig; roedd un am i'r tâl gael ei ddiddymu (ond hefyd roedd yn meddwl bod y tâl yn dreth oedd yn mynd i Lywodraeth Cymru), roedd dau am iddo aros ar 5c.
- 2.14 Amcangyfrifir bod 51% o fanwerthwyr SME yn cytuno y dylai'r tâl am SUCB gael ei gynyddu i gymell defnyddio BfL; roedd 37% yn anghytuno neu yn anghytuno yn gryf.
- 2.15 Roedd llawer o'r defnyddwyr yn meddwl bod y tâl SUCB eisoes yn berthnasol i BfL, ac felly, yn cefnogi ymestyn y tâl i gynnwys BfL. Roedd nifer o'r rhai gymerodd ran yn yr ymchwili ansoddol yn synnu nad oedd y tâl SUCB yn berthnasol i BfL, ac, yn ei dro, nad oedd gofyn gorfodol i arian BfL fynd i elusen.
- 2.16 Roedd amcangyfrif o 68% o SME yn meddwl y dylai elw'r BfL fynd i elusen, ond roedd rhaniad 50/50 wrth ymateb o ran a ddylai BfL ddod dan yr un rheoliadau a SUCB plastig. Gall y cyndynrwydd hwn ddeillio o ofynion ehangach fel cofnodi a rhoi adroddiad am y niferoedd dan sylw.
- 2.17 Cyfyngedig oedd cefnogaeth y defnyddwyr i ymestyn y tâl SUCB i gynnwys plastigau untro eraill, tebyg i becynnau plastig ar gyfer bwyd, gyda'r rhan fwyaf yn credu y dylai'r baich fod ar fanwerthwyr i weithredu i leihau'r pecynnau plastig untro wrth eu cynhyrchu.
- 2.18 Cofnododd cyfanswm o 97% o SME eu bod yn codi tâl am SUCB plastig, ond mae ymatebion yr arolwg manwerthwyr yn awgrymu y gallai rhai fod ddim yn cydymffurfio o ran SUCB papur. Awgrymodd y dystiolaeth hefyd, ar gyfer SME gyda deg a mwy o weithwyr ac

yn cyflenwi 1,000 o SUCB plastig neu fwy y flwyddyn, bod rhywfaint o ddiffyg cydymffurfio wrth gyhoeddi'r wybodaeth am y nifer o SUCB a gyflenwyd.

### **3. Oblygiadau i Lywodraeth Cymru**

- 3.1 Yn gyntaf, mae'r dystiolaeth yn awgrymu y dylai'r tâl am SUCB barhau. Mae cefnogaeth eang iddo, ac mae'n ymddangos ei fod wedi bod yn effeithiol o ran codi ymwybyddiaeth o effaith amgylcheddol SUCB. Mae'r tâl SUCB wedi arwain at ostyngiad sylweddol a pharhaus yn y nifer o SUCB a gyflenwyd yng Nghymru.
- 3.2 Ond mae'r nifer o BfL plastig sy'n cael eu defnyddio yn lle SUCB plastig yn peri pryder, a dylai Llywodraeth Cymru ystyried strategaethau i leihau'r nifer a gyflenwir a chynyddu'r nifer o BfL plastig sy'n cael eu haildefnyddio gan ddefnyddwyr pan fyddant yn cael eu cyflenwi.
- 3.3 Mae'n ymddangos bod cefnogaeth yn gyffredinol i'r taliadau SUCB a'r gofynion gael eu hystyn. Mae'r dystiolaeth o'r Astudiaeth yn awgrymu y byddai mwyafrif y defnyddwyr a'r manwerthwyr yn cefnogi cynnydd i'r tâl, a gweithredu i fynnu bod taliadau BfL yn mynd i elusennau.
- 3.4 Argymhellir y dylai Llywodraeth Cymru gynnal proses ymgynghori lawnach os bydd yn ystyried ymestyn y taliadau SUCB i blastigau untro eraill. Cyfyngedig oedd cefnogaeth defnyddwyr i daliadau gael eu hystyn i blastigau untro eraill, y teimlad oedd y dylai'r pwyslais fod ar fanwerthwyr i'w lleihau wrth eu cynhyrchu.
- 3.5 Gall Llywodraeth Cymru felly, ddymuno ystyried strategaethau penodol i annog SME i symud oddi wrth gyflenwi SUCB. Yn y cyfnod 2015-18, mae SME wedi parhau i gyflenwi niferoedd tebyg o SUCB plastig, tra bod busnesau mawr wedi gweithredu i leihau'r nifer o SUCB plastig y maent yn eu cyflenwi.
- 3.6 Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried a oes angen unrhyw gamau i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gofynion presennol, o ystyried nad oedd rhai SME yn cydymffurfio yn llawn yn 2017-18, a chyfyngedig oedd dealltwriaeth defnyddwyr o gwmpas y taliadau a'u bod yn dymuno mwy o wybodaeth o ran i ble y mae'r arian yn mynd.
- 3.7 Mae'r anawsterau a wynebwyd yn yr Astudiaeth hon i gael data am y niferoedd o fagiau a gyflenwyd gan y deg archfarchnad fwyaf yn dynodi bod angen i Lywodraeth Cymru ystyried cyflwyno gofynion adrodd gorfodol. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn cynnwys mathau eraill o fagiau yn ychwanegol, BfL yn arbennig, gan nad oes gan lawer o archfarchnadoedd unrhyw SUCB plastig bellach neu maent yn eu dirwyn i ben. Gallai data blynyddol gan y deg archfarchnad ddod â dealltwriaeth ddefnyddiol i hysbysu penderfyniadau polisi yn y dyfodol a chaniatáu i effeithiau amgylcheddol polisiâu a gweithredoedd gan fanwerthwyr gael eu dadansoddi a chraffu arnynt yn llawn.
- 3.8 Yn absenoldeb gofynion adrodd gorfodol, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gysylltu â'r busnesau mawr i sicrhau ymrwymiad i gefnogi astudiaethau yn y dyfodol i sicrhau eu bod yn cyfranogi, o ystyried bod yr Astudiaeth wedi rhoi amser ac adnoddau sylweddol i geisio casglu gwybodaeth gan y deg archfarchnad fwyaf a busnesau mawr eraill, heb fod yn llwyddiannus yn angenrheidiol.

Awduron yr Adroddiad: Winning Moves, Icaro Consulting

Adroddiad Ymchwil Llawn: Winning Moves, Icaro Consulting (2019). *Gwerthu a Defnyddio Bagiau Siopa yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR rhif 60/2019

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/ymchwil-am-werthiant-defnydd-bagiau-siopa-yng-nghymru>

Barn yr ymchwilwyr yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Kathleen Mulready

Yr Is-adran Ymchwil Cymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: [Kathleen.Mulready001@llyw.cymru](mailto:Kathleen.Mulready001@llyw.cymru)

**OGL** © Hawlfraint y Goron ISBN 978-1-83933-592-1